# Bwyd a Chi 2 Cylch 6: Pennod 1 Bwyd y gallwch ymddiried ynddo

## Cyflwyniad

Cenhadaeth gyffredinol yr ASB yw sicrhau ‘bwyd y gallwch ymddiried ynddo’. Gweledigaeth yr ASB yw system fwyd sy’n bodloni’r gosodiadau canlynol:

- Mae bwyd yn ddiogel
- Mae bwyd yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label
- Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Mae’r bennod hon yn rhoi trosolwg o ymwybyddiaeth ymatebwyr o’r ASB a’u hymddiriedaeth ynddi, yn ogystal â’u hyder mewn diogelwch bwyd a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir ar labeli bwyd.

## Hyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd

Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr eu bod yn hyderus o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd (er enghraifft, eu bod yn hyderus iawn neu’n eithaf hyderus). Dywedodd 93% o’r ymatebwyr eu bod yn hyderus bod y bwyd y maent ei brynu yn ddiogel i’w fwyta; a dywedodd 87% o’r ymatebwyr eu bod yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir (footnote 1).

Roedd hyder o ran diogelwch bwyd yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- **gr?p oedran:** roedd ymatebwyr h?n yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod y bwyd maen nhw’n ei brynu yn ddiogel i’w fwyta nag oedolion iau (er enghraifft, 88% o’r rheiny rhwng 16 a 24 oed o gymharu â 97% o’r rheiny rhwng 65 a 79 oed)**.
- **diogeledd bwyd:** roedd ymatebwyr a oedd â lefelau uwch o ddiogeledd bwyd yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod y bwyd maen nhw’n ei brynu yn ddiogel i’w fwyta o gymharu â’r rhai a oedd â lefelau is o ddiogeledd bwyd (er enghraifft, 97% o’r rheiny â diogeledd bwyd uchel o gymharu ag 85% o’r rheiny â diogeledd bwyd isel iawn).
- **gr?p ethnig:** roedd yr ymatebwyr gwyn (95%) yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod y bwyd maen nhw’n ei brynu yn ddiogel i’w fwyta nag ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (82%) (footnote 2).
- **cyfrifoldeb dros goginio:** roedd yr ymatebwyr sy’n gyfrifol am goginio (93%) yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod y bwyd maen nhw’n ei brynu yn ddiogel i’w fwyta na’r rheiny nad ydyn nhw’n coginio (83%).

Roedd hyder yng nghywirdeb yr wybodaeth ar labeli bwyd yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- **incwm blynyddol y cartref:** roedd yr ymatebwyr ag incwm uwch yn fwy tebygol o fod yn hyderus yng nghywirdeb labeli bwyd o gymharu â’r ymatebwyr ag incwm is, (er enghraifft, 92% o’r rheiny ag incwm rhwng £64,000 a £95,999 o gymharu ag 80% o’r rheiny ag incwm o lai na £19,000).

- **NS-SEC (footnote 3):** roedd yr ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (90%), galwedigaethau canolradd (89%), a galwedigaethau ailadroddus a lled-ailadroddus (88%) yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt hyder yng nghywirdeb labeli bwyd na'r rheiny a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (78%).
- **diogeledd bwyd:** roedd yr ymatebwyr a oedd â lefelau uwch o ddiogeledd bwyd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn hyderus yng nghywirdeb labeli bwyd o gymharu â'r rheiny a oedd â lefelau is o ddiogeledd bwyd (er enghraifft, 90% o'r rheiny â diogeledd bwyd uchel o gymharu ag 78% o'r rheiny â diogeledd bwyd isel iawn).

# Hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd

Dywedodd tua thri chwarter o'r ymatebwyr (76%) fod ganddynt hyder (hynny yw, hyderus iawn neu'n weddol hyderus) yn y gadwyn cyflenwi bwyd (footnote 4).


Roedd hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- **gr?p oedran:** roedd ymatebwyr h?n yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd o gymharu ag oedolion iau (er enghraifft, 81% o'r rheiny rhwng 55 a 64 oed o gymharu â 67% o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed). Yn ogystal, dywedodd 10% o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed nad ydyn nhw'n gwybod pa mor hyderus ydynt yn y gadwyn cyflenwi bwyd.
- **NS-SEC:** roedd ymatebwyr mewn swyddi galwedigaethol (er enghraifft, 85% o'r rheiny mewn galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is) ac ymatebwyr a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (74%) yn fwy tebygol o ddweud bod ganddyn nhw hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd, o gymharu â myfyrwyr amser llawn (61%). Yn ogystal, roedd 13% o'r rheiny a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir neu erioed wedi gweithio yn dweud nad ydynt yn gwybod pa mor hyderus ydynt yn y gadwyn cyflenwi bwyd.
- rhanbarth (Lloegr) (footnote 5): roedd hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd yn amrywio fesul rhanbarth. Er enghraifft, roedd 85% o'r ymatebwyr yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ac 81% o'r rheiny yn Nwyrain Canolbarth Lloegr yn hyderus yn y gadwyn cyflenwi bwyd o gymharu â 70% o'r rheiny yn Llundain a 70% yn Ne-ddwyrain Lloegr.
- **diogeledd bwyd:** roedd yr ymatebwyr a oedd â lefelau uwch o ddiogeledd bwyd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn hyderus yn y gadwyn cyflenwi bwyd o gymharu â'r rheiny a oedd â lefelau is o ddiogeledd bwyd (er enghraifft, 80% o'r rheiny â diogeledd bwyd uchel o gymharu ag 69% o'r rheiny â diogeledd bwyd isel iawn).

## Ffigur 1. Hyder bod y rheiny sy'n rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd yn sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Y rheiny sy’n rhan o’r gadwyn cyflenwi bwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Gwasanaethau dosbarthu bwyd | 45 |
| Siopau tecawê | 62 |
| Lladd-dai a chynhyrchwyr llaeth | 78 |
| Bwytai | 82 |
| Gweithgynhyrchwyr bwyd | 82 |
| Siopau ac arfarchnadoedd | 85 |
| Ffermwyr | 88 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i’r ymatebwyr nodi pa mor hyderus oeddent fod y rheiny sydd â rhan allweddol yn y gadwyn cyflenwi bwyd yn sicrhau bod y bwyd maent yn ei brynu yn ddiogel i’w fwyta. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt hyder (hynny yw, yn hyderus iawn neu’n weddol hyderus) mewn ffermwyr (88%) a siopau ac archfarchnadoedd (85%) nag mewn siopau tecawê (62%) a gwasanaethau dosbarthu bwyd, er enghraifft Just Eat, Deliveroo, Uber Eats (45%) (Ffigur 1) (footnote 6). Yn ogystal, dywedodd 20% o’r ymatebwyr nad ydyn nhw’n gwybod pa mor hyderus ydyn nhw bod gwasanaethau dosbarthu bwyd yn sicrhau bod y bwyd maen nhw’n yn ei brynu yn ddiogel i’w fwyta.

## Ymwybyddiaeth o’r ASB ac ymddiriedaeth a hyder ynddi

Roedd y rhan fwyaf (90%) o’r ymatebwyr wedi clywed am yr ASB (footnote 7).


Roedd ymwybyddiaeth o'r ASB yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- **gr?p oedran:** roedd ymatebwyr h?n yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB nag ymatebwyr iau (er enghraifft, roedd 97% o'r rheiny rhwng 65 a 79 oed wedi clywed am yr ASB, o gymharu â 68% o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed).
- incwm blynyddol y cartref: roedd yr ymatebwyr ag incwm dros £32,000 (er enghraifft, 97% o'r rheiny ag incwm rhwng £64,000 a £95,999) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB, o gymharu â'r rheiny ag incwm llai nag £19,000 (84%).
- **NS-SEC:** roedd yr ymatebwyr yn y rhan fwyaf o grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 95% o'r rheiny mewn galwedigaethau canolradd) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB na myfyrwyr amser llawn (64%).
- **gr?p ethnig:** roedd yr ymatebwyr gwyn (93%) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB o gymharu â'r ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (74%) (footnote 8).
- **cyfrifoldeb dros goginio:** roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am goginio (91%) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB na'r rheiny nad ydynt yn coginio (71%).
- **cyfrifoldeb dros siopa am fwyd:** roedd yr ymatebwyr sydd yn gyfrifol am siopa am fwyd (91%) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB na'r rheiny nad ydynt byth yn siopa am fwyd (71%).

# Ffigur 2. Gwybodaeth am yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Gwybodaeth am yr ASB | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Dydw i erioed wedi clywed am yr ASB | 7 |
| Doeddwn i ddim wedi clywed am yr ASB nes i mi gael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg hwn | 6 |
| Rwyf wedi clywed am yr ASB ond dydw i ddim yn gwybod dim amdani | 31 |
| Rwy'n gwybod ychydig am yr ASB a'i gwaith | 49 |
| Rwy'n gwybod llawer am yr ASB a'i gwaith | 7 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod o leiaf rywfaint am yr ASB; dywedodd 7% eu bod yn gwybod llawer am yr ASB a'i gwaith; a dywedodd 49% eu bod yn gwybod ychydig am yr ASB a'i gwaith. Dywedodd bron i draean (31%) o'r ymatebwyr eu bod wedi clywed am yr ASB ond nad oeddent yn gwybod unrhyw beth amdani, dywedodd 6% nad oeddent wedi clywed am yr ASB cyn iddynt gael gwahoddiad i gymryd rhan yn arolwg Bwyd a Chi 2, a dywedodd 7% nad oeddent erioed wedi clywed am yr ASB (Ffigur 2) (footnote 9).

Roedd gwybodaeth am yr ASB yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- **gr?p oedran:** roedd yr ymatebwyr rhwng 25 a 79 oed (er enghraifft, 68% o'r rheiny rhwng 55 a 64 oed) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB, o gymharu â'r ymatebwyr iau (38% o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed) neu'r ymatebwyr hynaf (41% o'r rheiny 80 oed a h?n).
- **incwm blynyddol y cartref:** roedd yr ymatebwyr ag incwm uwch yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB o gymharu â'r ymatebwyr ag incwm is, (er enghraifft, 63% o'r rheiny ag incwm rhwng £64,000 a £95,999 o gymharu â 52% o'r rheiny ag incwm o lai na £19,000).
- **NS-SEC:** roedd yr ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (63%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na'r rheiny mewn rhai galwedigaethau canolradd (er enghraifft, 50% o'r rheiny mewn galwedigaethau gwaith ailadroddus a lled-ailadroddus. Y rheiny a oedd yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oeddent erioed wedi gweithio (33%) neu fyfyrwyr amser llawn (31%) oedd lleiaf tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB.
- **gwlad:** roedd ymatebwyr yng Nghymru (65%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na'r rheiny yn Lloegr (56%) neu Ogledd Iwerddon (56%). (footnote 10) **
- **cyfrifoldeb dros goginio:** roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am goginio (57%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB o gymharu â'r rheiny nad ydynt yn coginio (40%).
- **cyfrifoldeb dros siopa:** roedd yr ymatebwyr sy'n gyfrifol am siopa (58%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na'r rheiny nad ydynt byth yn siopa (38%).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ag o leiaf rywfaint o wybodaeth am yr ASB i ba raddau yr oeddent yn ymddiried yn yr ASB i wneud ei gwaith, hynny yw sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Dywedodd y rhan fwyaf (78%) o'r ymatebwyr eu bod yn ymddiried yn yr ASB i wneud ei gwaith, nid oedd 19% o'r ymatebwyr yn ymddiried ynddi y naill ffordd neu'r llall i wneud y gwaith, a dywedodd 1% o'r ymatebwyr nad oeddent yn ymddiried yn yr ASB i wneud y gwaith (footnote 11).

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn hyderus y gellir dibynnu ar yr ASB (neu asiantaeth y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd) i ddiogelu'r cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd (fel gwenwyn bwyd neu adweithiau alergaidd rhag bwyd) (82%). Roedd tua 8 o bob 10 o'r ymatebwyr yn hyderus bod yr ASB yn cymryd camau priodol os nodir risg sy'n gysylltiedig â bwyd (82%), ac roeddent yn hyderus bod yr ASB wedi ymrwymo i gyfathrebu'n agored â'r cyhoedd am risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd (79%) (footnote 12).

1. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi… a) bod y bwyd rydych yn ei brynu yn ddiogel i'w fwyta. b) bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir (er enghraifft, cynhwysion, gwybodaeth am faeth, gwlad tarddiad). Ymatebion: yn hyderus iawn, yn eithaf hyderus, ddim yn hyderus iawn, ddim yn hyderus o gwbl, mae'n amrywio, ddim yn gwybod. Sylfaen= 5991, pawb a ymatebodd.

2. Sylwer: nid yw ffigurau grwpiau ethnig eraill yn cael eu hadrodd oherwydd maint sylfaen/sampl isel.

3. NS-SEC System ddosbarthu yw Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) sy'n awgrymu sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolion ar sail statws galwedigaeth a chyflogaeth.

4. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi yn y gadwyn cyflenwi bwyd? Hynny yw, yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â dod â bwyd i'ch bwrdd. Ymatebion: yn hyderus iawn, yn eithaf hyderus, ddim yn hyderus iawn, ddim yn hyderus o gwbl, mae'n amrywio, ddim yn gwybod. Sylfaen= 5991, pawb a ymatebodd.

5. Dim ond yn Lloegr yr ystyriwyd gwahaniaethau rhanbarthol oherwydd y maint sampl/sylfaen isel yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

6. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi bod… A) Ffermwyr, B) Lladd-dai a llaethdai, C) Gwneuthurwyr bwyd, er enghraifft ffatrïoedd, D) Siopau ac archfarchnadoedd, E) Bwytai, F) Siopau tecawê, G) Gwasanaethau dosbarthu bwyd, er enghraifft Just Eat, Deliveroo, Uber Eats... yn y DU (ac Iwerddon) yn sicrhau bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta. Ymatebion: Yn hyderus iawn, Yn weddol hyderus, Ddim yn hyderus iawn, Ddim yn hyderus o gwbl, Mae'n amrywio, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4893, pob un a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a wnaeth gwblhau'r arolwg papur 'Bwyta Allan'.

7. Cwestiwn: Pa rai o'r cyrff canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi clywed amdanynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Ymateb: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), (Lloegr) Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), (Lloegr) Y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, (Lloegr) Asiantaeth yr Amgylchedd, (Lloegr) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, (Cymru a Lloegr) Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), (Cymru) Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW), (Cymru) Cyfoeth Naturiol Cymru, (Gogledd Iwerddon) Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd (PHA), (Gogledd Iwerddon) Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), (Gogledd Iwerddon) Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon (HSENI), (Gogledd Iwerddon) Safefood. Dim un o'r rhain. Sylfaen = 3820, pawb a ymatebodd ar-lein. Sylwer: Roedd yr holl ddefnyddwyr a gymerodd

ran yn yr arolwg wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg, a wnaeth grybwyll yr ASB. Mae diffyg ymateb yn dangos nad oedd yr ymatebydd wedi clywed am y sefydliad neu nad oedd wedi ateb y cwestiwn.

8. Sylwer: nid yw ffigurau grwpiau ethnig eraill yn cael eu hadrodd oherwydd maint sylfaen/sampl isel.

9. Cwestiwn: Faint, os o gwbl, ydych chi'n ei wybod am yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a adwaenir hefyd fel yr ASB? Ymateb: Rwy'n gwybod llawer am yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'i gwaith, Rwy'n gwybod ychydig am yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'i gwaith, Rwyf wedi clywed am yr ASB ond dydw i ddim yn gwybod dim amdani, Doeddwn i ddim wedi clywed am yr ASB nes i mi gael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg hwn, Dydw i erioed wedi clywed am yr ASB. Sylfaen= 5991, pawb a ymatebodd. Sylwer: Roedd yr holl ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg, a wnaeth grybwyll yr ASB.

10. Dim ond yn Lloegr yr ystyriwyd gwahaniaethau rhanbarthol oherwydd y maint sampl/sylfaen isel yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

11. Cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ai peidio, i gyflawni ei gwaith? Hynny yw, sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Ymatebion: Rwy'n ymddiried yn fawr ynddi, Rwy'n ymddiried ynddi, Dydw i ddim yn ymddiried ynddi y naill ffordd neu'r llall, Dydw i ddim yn ymddiried ynddi, Dydw i ddim yn ymddiried ynddi o gwbl, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3576, yr holl ymatebwyr a oedd yn gwybod llawer neu ychydig am yr ASB a'i gwaith. Sylwer: Cyfeirir at 'Rwy'n ymddiried yn fawr ynddi' ac 'Rwy'n ymddiried ynddi' fel 'ymddiried'

12. Cwestiwn: Wrth feddwl am yr Asiantaeth Safonau Bwyd / asiantaeth y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, pa mor hyderus ydych chi... a) y gellir dibynnu arni i ddiogelu'r cyhoedd rhag risgiau sy'n ymwneud â bwyd (fel gwenwyn bwyd neu adweithiau alergaidd a achosir gan fwyd). b) ei bod wedi ymrwymo i gyfathrebu'n agored â'r cyhoedd am risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd. c) ei bod yn cymryd camau priodol os nodir risg sy'n gysylltiedig â bwyd? Ymatebion: yn hyderus iawn, yn eithaf hyderus, ddim yn hyderus iawn, ddim yn hyderus o gwbl, ddim yn gwybod. Sylfaen= 5991, pawb a ymatebodd. Cyfeirir at ymatebwyr 'hyderus iawn' ac 'eithaf hyderus' fel rhai 'hyderus'. Holwyd ymatebwyr a oedd yn gwybod ychydig, neu ddim o gwbl, am yr ASB ynghylch 'yr adran lywodraethol sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd'; holwyd y rheiny a oedd yn gwybod o leiaf rywfaint am yr ASB ynghylch yr ASB.